

Canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaeth sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig

Ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ar
sicrwydd oedran a dyletswyddau Rhan 5
eraill

Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd 5 Rhagfyr 2023

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 5 Mawrth 2024

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
-------------------	---

1. Trosolwg

- 1.1 Derbyniodd [Deddf Diogelwch Ar-lein 2023](#) ('y Ddeddf') Gydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023. Mae'r Ddeddf yn creu fframwaith rheoleiddio newydd sydd wedi'i ddylunio i wneud gwasanaethau rhyngwrwyd wedi'u rheoleiddio'n fwy diogel i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig (DU), yn enwedig plant. I gyflawni hyn, mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau penodol ar ddarparwyr gwasanaethau sy'n arddangos neu'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ar eu gwasanaethau ar-lein ('**Dyletswyddau Rhan 5**'). Mae'r rhain yn cynnwys y ddyletswydd i roi sicrwydd oedran ar waith er mwyn sicrhau nad yw plant fel mater o drefn yn gallu dod ar draws cynnwys o'r fath. Rhaid gweithredu a defnyddio'r sicrwydd oedran mewn ffordd sy'n hynod effeithiol wrth bennu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai beidio. Maent hefyd yn cynnwys dyletswyddau cadw cofnodion.
- 1.2 Fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, mae'n ddyletswydd ar Ofcom i gynhyrchu canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'u dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn Adran 81 o'r Ddeddf. Mae ein canllawiau arfaethedig yn Atodiad 2 o'r ymgynghoriad hwn. Yn ogystal â chynorthwyo darparwyr gwasanaeth i gydymffurfio â'u dyletswyddau sicrwydd oedran, mae ein canllawiau'n ceisio cynorthwyo darparwyr gwasanaeth i sicrhau nad yw'r broses sicrwydd oedran yn atal defnyddwyr sy'n oedolion yn ormodol rhag cyrchu cynnwys cyfreithiol.

Mae Ofcom yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ar gyfer Rhan 5 o'r Ddeddf

Mae Ofcom yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n dangos neu'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ('**darparwyr gwasanaeth**') ar eu gwasanaethau ar-lein ('**gwasanaethau wedi'u rheoleiddio**'). Bwriedir i'r canllawiau drafft helpu'r darparwyr gwasanaeth hyn i gydymffurfio â'u dyletswyddau rheoleiddio o dan Ran 5 o'r Ddeddf. Rydym yn nodi crynodeb o'n canllawiau arfaethedig isod.

Canllawiau arfaethedig ar sicrhau nad yw plant fel mater o drefn yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig darparwyr wedi'u rheoleiddio:

- Rydym yn nodi rhestr sydd heb fod yn hollgynhwysfawr o fathau o sicrwydd oedran a allai fod yn hynod effeithiol o ran pennu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai beidio. Rydym hefyd yn nodi mathau o sicrwydd oedran na fyddai'n addas i fodloni'r dyletswyddau yn Rhan 5 o'r Ddeddf.
- Dylai darparwyr gwasanaeth roi proses sicrwydd oedran ar waith sy'n bodloni pob un o'r meini prawf o gywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch er mwyn sicrhau ei bod yn hynod effeithiol wrth bennu'n gywir a yw defnyddiwr penodol yn blentyn ai beidio.
- Dylai darparwyr gwasanaethau hefyd ystyried egwyddorion hygrychedd a rhyngweithredu er mwyn sicrhau bod y broses sicrwydd oedran yn hawdd i'w defnyddio ac nad yw'n atal oedolion yn ormodol rhag cael mynediad at gynnwys cyfreithiol.
- Dylai darparwyr gwasanaeth sicrhau bod rheolaethau mynediad ar waith ar y gwasanaeth i atal defnyddwyr sydd wedi'u nodi fel plant trwy'r broses sicrwydd oedran rhag dod ar draws cynnwys pornograffig ar y gwasanaeth. Ni ddylent ychwaith letya na chaniatáu cynnwys ar eu gwasanaeth sy'n cyfeirio neu'n annog defnyddwyr plant i osgoi'r broses sicrhau oedran neu'r rheolaethau mynediad.

- Dylai darparwyr gwasanaethau ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth diogelu data, a sut i'w chymhwyso i'w dull(iau) sicrwydd oedran, drwy ymgynghori â chanllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Canllawiau arfaethedig yn ymwneud â'r ddyletswydd cadw cofnodion:

- Dylai darparwyr gwasanaeth gadw cofnod ysgrifenedig cydnerth o'r broses sicrwydd oedran a ddefnyddir. Rhaid i'r cofnod fod yn gyfredol ac yn hawdd ei ddeall.
- Rhaid i gofnodion ysgrifenedig esbonio sut mae'r darparwr gwasanaeth wedi ystyried pwysigrwydd diogelu defnyddwyr rhag torri unrhyw ddarpariaeth statudol neu reol gyfreithiol sy'n ymwneud â phreifatrwydd. Rydym yn darparu enghreifftiau o sut y gall darparwyr ddangos hyn.
- Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi crynodeb o'r cofnod ysgrifenedig o'u proses sicrwydd oedran a ddylai fod yn hawdd ei ddeall ac ar gael mewn rhan hawdd ei chanfod ar wefan y gwasanaeth wedi'u rheoleiddio.

Canllawiau arfaethedig ar ein dull o asesu cydymffurfiaeth:

- Wrth bennu a yw darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau, bydd Ofcom yn ystyried ein hegwyddorion rheoleiddio, sef tryloywder, atebolrwydd, cymesuredd, cysondeb, a sicrhau nad yw camau rheoleiddio ond wedi'u targedu at achosion lle mae eu hangen.
- Rydym yn nodi rhestr sydd heb fod yn hollgynhwysfawr o enghreifftiau lle rydym yn debygol o ystyried nad yw darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau.
- Byddwn yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn ein [Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein](#) (yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch ar hyn o bryd) lle rydym yn amau diffyg cydymffurfio â'r rhwymedigaethau sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau o dan y Ddeddf.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth ychwanegol am y canllawiau drafft, gan gynnwys y dystiolaeth rydym wedi dibynnu arni i gefnogi ein dull arfaethedig. Rydym hefyd yn nodi ein hasesiad o effaith debygol ein cynigion yn Atodiad 1.

Y camau nesaf

- 1.3 Rydym yn gwahodd barn rhanddeiliaid ar ein canllawiau drafft, ac yn benodol y cwestiynau a nodir yn Atodiad 6 o'r ymgynghoriad hwn.
- 1.4 Y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yw 5pm ddydd Mawrth 5 Mawrth 2024.
- 1.5 Ar ôl i ni ystyried yr holl ymatebion, byddwn yn cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r canllawiau terfynol. Disgwylwn i hyn fod yn 2025, ac ar ôl hynny bydd Llywodraeth y DU yn dod â'r dyletswyddau hyn i rym.